# Cynorthwyydd Addysgu Lefel 1 - Canolfan Adnoddau Arbenigol

Contract llawn-amser, dros dro

Yn dechrau mis Ionawr 2026 (neu yn gynharach os oes modd) hyd at 31 Awst 2026

# Pecyn Recriwtio



## Cyflwyniad gan y Prifathro

Diolch am eich diddordeb yn y swydd hon.

Rydym yn falch iawn o'n hysgol gynhwysol ac uchelgeisiol, ac mae gennym ddisgwyliadau uchel tu hwnt ar gyfer pob un o'n myfyrwyr. Rydym yn ymfalchïo yn eu galluogi i dyfu ac i ffynnu. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen i'n myfyrwyr wneud dau beth syml – gweithio'n galed a bod yn garedig. Mae ein myfyrwyr a'n staff yn ffynnu mewn cymuned lle mae cysondeb a'n harferion yn mynd law yn llaw ag adnabod pob myfyriwr yn dda a'u cefnogi i gyflawni eu potensial.

Mae gennym fudd adeilad ysgol gwych, sydd wedi ennill gwobrau, a gafodd ei gwblhau'n ddiweddar dan raglen Ysgolion 21ain Ganrif. Mae'n gyfleuster modern gwych sydd ag addysg yn greiddiol iddo. Mewn lleoliad yng nghanol Trefynwy, rydym yn gwasanaethu ein cymuned leol yn ogystal ag ardaloedd cyfagos yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae gennym tua 1,700 o fyfyrwyr a 200 o staff, ac mae mwy o alw nag o leoedd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn.

Rydym yn hollol benderfynol i ddarparu safon rhagorol o addysg ar gyfer pob plentyn sy'n dod i'n hysgol, fel eu bod yn cael cyfle i arwain bywydau hapus a llwyddiannus. Mae ein hymagwedd at y Cwricwlwm i Gymru wedi ei seilio ar bwysigrwydd pynciau ac ar egwyddor gwybodaeth rymus. Mae ein gwaith ar hyn yn destun astudiaeth achos ddiweddar gan Estyn i rannu ein harfer yn ehangach. Mae ein haddysgeg wedi ei seilio ar dystiolaeth ymchwil ar ddysgu ac ar sut i gynyddu cynnydd myfyrwyr i'r eithaf.

Rydym yn hollol gyfun ac yn darparu ar gyfer ystod eang o anghenion dysgu. Ar hyn o bryd mae 14% o boblogaeth yr ysgol ar y Gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gennym hefyd Ganolfan Adnoddau Arbenigol integredig, sydd hefyd yn destun astudiaeth achos ddiweddar gan Estyn am ei darpariaeth eithriadol o gryf. Daw myfyrwyr o ystod eang o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol a'r cyfartaledd treigl ar gyfer prydau ysgol am ddim yw 13.8%.

Croesawn geisiadau gan ymgeiswyr y mae eu nodweddion a gwerthoedd personol yn adlewyrchu'r rhai yn y fanyleb person, ac y mae eu profiadau hefyd yn eu rhoi mewn sefyllfa gryf i gyflawni'r disgrifiad swydd. Caiff rhaglen gynefino lawn a dysgu proffesiynol ystyrlon eu cynnig i'r holl staff.

Byddwch yn ein cael yn grŵp o gydweithwyr cefnogol sy'n gweithio i ddarparu safon eithriadol o addysg ar gyfer yr holl fyfyrwyr yn ein gofal. Ymfalchïwn yn fawr yn yr hyn a wnawn, a rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol iawn am yr hyn y gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd yn y dyfodol.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cais, pe dymunech ymgeisio.

Dymuniadau gorau

**Hugo Hutchison**
**Prifathro**



## Disgrifiad Swydd

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Teitl Swydd**: | Cynorthwyydd Addysgu Lefel 1 - Canolfan Adnoddau Arbenigol |
| 2 | **Gradd Gyflog**: | TA1 – Band B – SCP 3-5<br>£24,027 - £24,790 pro rata y flwyddyn |
| | **Oriau Gwaith:** | Yn ystod y tymor, 32 ½ awr yr wythnos, 39 wythnos y flwyddyn<br>Dydd Llun i ddydd Gwener, 7 awr y dydd yn cynnwys ½ awr o egwyl di-dâl amser cinio. Dechrau mis Ionawr 2026 (yn gynharach os oes modd) hyd at 31 Awst 2026. |

**3 Perthnasoedd**

3.1 Mae deiliad y swydd yn gyfrifol i'r Prifathro drwy Athro Arweiniol y Ganolfan Adnoddau Arbenigol ('y Ganolfan').

3.2 Mae deiliad y swydd yn gweithio gyda thîm y Ganolfan i gefnogi darpariaeth ystafell ddosbarth o fewn dosbarthiadau llai yn y Ganolfan a phan yn defnyddio darpariaeth brif ffrwd.

3.3 Mae deiliad y swydd yn gweithio ar lefel broffesiynol gyda phob cydweithiwr (yn allanol ac yn fewnol) fel sy'n briodol i sefydlu a chynnal perthnasoedd cynhyrchiol.

3.4 Mae deiliad y swydd yn cydlynu gyda rhieni, gofalwyr a myfyrwyr fel sy'n briodol.

**4 Diben y Swydd**

4.1 Gweithio gydag Athro Arweiniol y Ganolfan a thîm y Ganolfan i ddiwallu anghenion dysgwyr drwy gymorth ystafell ddosbarth o fewn dosbarthiadau yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol a hefyd wrth ddefnyddio darpariaeth brif ffrwd. Bydd hyn yn golygu gweithio gyda thîm dosbarthiadau y Ganolfan i gyflenwi gweithgareddau dysgu a baratowyd ac adolygu cynnydd arnynt.

4.2 Cyfrannu at weithredu strategaethau a chefnogi deilliannau penodol a ddynodir drwy Gynlluniau Datblygu Unigol / Datganiadau AAA / Cynlluniau Gofal Iechyd Addysgol a'r targedau tymor byr sy'n gysylltiedig, dan arweiniad athro/athrawes y dosbarth.

4.3 Darparu amgylchedd diogel a heriol ac sy'n cymell myfyrwyr.

**5 Cyfrifoldebau**

5.1 Gweithio wrth ochr Tîm y Ganolfan i ddarparu cymorth yn y dosbarth (strategaethau dysgu lleol a chenedlaethol, ee llythrennedd, rhifedd, CA3/4/5) i gefnogi anghenion dysgu pob myfyriwr.

5.2 Defnyddio'r adnoddau ddarparwyd ac addasu'r dull gweithredu fel sydd angen i gefnogi mynediad a chynnydd unigolion neu grwpiau bach o fyfyrwyr o fewn yr ystafell ddosbarth, fel y cytunwyd gan yr athro/athrawes dosbarth.

5.3 Rhoi adborth cywir fel sydd angen ar gyflawniad a chynnydd myfyrwyr i'r athro/athrawes ystafell ddosbarth gyda thystiolaeth fel sy'n briodol.

5.4 Cadw cofnodion o ddysgu a chyfrannu at adolygiadau o systemau/cofnodion a darpariaeth.

5.5 Hyrwyddo gwerthoedd, agweddau ac ymddygiad cadarnhaol ymysg myfyrwyr yn unol â pholisïau ac arferion a sefydlwyd.

5.6 Cyfrannu at ddarparu amgylchedd diogel a heriol sy'n cymell myfyrwyr.

5.7 Cydlynu gyda rhieni fel y cytunwyd gyda'r athro/athrawes dosbarth ac athro arweiniol y Ganolfan ac o fewn eich rôl/cyfrifoldeb a chymryd rhan mewn sesiynau adborth/cyfarfodydd gyda rhieni a gofalwyr.

5.8 Cefnogi gweithredu Deddf ADY 2018 a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

5.9 Rhoi cymorth i ddiwallu anghenion gofal personol unigolion gydag anableddau yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

5.10 Cynnal a chydymffurfio gyda darpariaethau statudol Rheoliadau Iechyd a Diogelwch Gwaith 1999, Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant Sir Fynwy 2014 ac unrhyw bolisïau perthnasol eraill gan y Cyngor a'r Ysgol yn ymwneud â Pholisi Diogelu ac Iechyd a Diogelwch.

5.11 Dilyn polisïau a gweithdrefnau yr Ysgol a'r Awdurdod Lleol ar Ddiogelu ac Amddiffyn Plant mewn pob gwaith gyda phlant a theuluoedd.

5.12 Gwybod am a chydymffurfio gyda pholisïau a gweithdrefnau'n ymwneud â rheoli ymddygiad, gwisg ysgol, cyfrinachedd a diogelu data, gan hysbysu person priodol am bob mater o gonsyrn.

5.13 Cynnal a hyrwyddo gweledigaeth ac ethos yr Ysgol.

5.14 Cymryd rhan mewn hyfforddiant, gweithgareddau dysgu a datblygu perfformiad fel sydd angen.

**6 Arweiniad**

6.1 Bod â gwybodaeth gyfredol o raglenni dysgu i gefnogi dysgu myfyrwyr/grwpiau (rhaglenni cenedlaethol/lleol, llythrennedd, rhifedd).

6.2 Medru defnyddio gwybodaeth a chynllunio a baratowyd gan yr athro/athrawes dosbarth i roi cymorth priodol i fyfyrwyr ac adolygu cynnydd gyda'r athro/athrawes dosbarth.

6.3 Addasu adnoddau fel sydd angen i gefnogi dysgu myfyrwyr, dan arweiniad yr athro/athrawes dosbarth.

6.4 Rhoi adborth ar waith myfyrwyr gyda'r athro/athrawes dosbarth i gefnogi cynllunio ar gyfer y camau nesaf mewn dysgu.

6.5 Cyfrannu at adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol/Cynlluniau Dysgu Unigol i gefnogi dysgu myfyrwyr ar draws y Ganolfan.

6.6 Mynychu cyfarfodydd adolygu (yn cynnwys adolygiadau blynyddol) a chyfarfodydd rhieni i roi gwybodaeth am gyflawniad/cynnydd myfyrwyr fel y cytunwyd gyda'r athro/athrawes dosbarth ac athro arweiniol y Ganolfan.

6.7 Gweithio o fewn polisïau ac arferion yr Ysgol wrth gefnogi dysgu myfyrwyrk.

**7 Datblygiad proffesiynol**

Mae'r Ysgol yn ymroddedig i gefnogi pawb wrth ddatblygu eu hymarfer i gyflawni'r deilliannau gorau oll ar gyfer pob myfyriwr. Mae ein polisi Datblygiad Polisi Proffesiynol parhaus yn amlinellu'r ddarpariaeth a'r ymarfer ar gyfer y swydd hon.

## Disgrifiad Swydd

**8 Rheoli Perfformiad**

Mae ein polisi ac ymarfer Rheoli Perfformiad yn ein cefnogi i gyflawni nodau ac amcanion yr Ysgol wrth godi safonau. Mae'r polisi hwn yn nodi sut y caiff perfformiad ei fesur yng nghyswllt nodau a blaenoriaethau yr ysgol.

**9** Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau y swydd yn amodol ar y manylion hynny yn y Datganiad ac Amodau Cyflogaeth a bydd yn cyfrif fel amser cyfeiriedig fel y'u manylir mewn datganiad o'r fath ac fel y'u diffinnir gan y Prifathro.

**10** Nid yw'r disgrifiad swydd yn diffinio holl ddyletswyddau/cyfrifoldebau y swydd yn fanwl, caiff ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn a gall gael ei addasu neu ei ddiwygio yn dilyn ymgynghoriad a gyda chytundeb deiliad y swydd.

## Manyleb Personol

| | Gofyniad | Hanfodol neu Ddymunol | Sut y profir` |
|---|---|---|---|
| **Addysg /Cymwysterau** | | | |
| 1.1 | Cymhwyster Lefel 2 mewn llythrennedd, rhifedd a Gwyddoniaeth | H | Ffurflen Gais |
| 1.2 | Cymhwyster Cynorthwyydd Addysgu | D | Ffurflen Gais |
| 1.3 | Cymorth Cyntaf yn y Gweithle | D | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | | |
| 2.1 | Profiad o weithio gyda myfyrwyr mewn amgylchedd addysgol | H | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| 2.2 | Profiad o gefnogi dysgwyr y dynodwyd fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion dysgu cymhleth o fewn Canolfan Adnoddau neu Arbenigol | D | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Doniau a Sgiliau** | | | |
| 3.1 | Gallu i ddangos brwdfrydedd ac ymroddiad personol i amcanion y Ganolfan Adnoddau Arbenigol | H | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| 3.2 | Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu ardderchog gyda phlant ac oedolion mewn amgylchedd dysgu, yn ogystal â gyda rhieni a gofalwyr | H | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| 3.3 | Agwedd adeiladol ac ar y cyd at waith tîm a dealltwriaeth o sut mae gwahanol swyddi yn gweithio o fewn tîm tebyg i'r Ganolfan | H | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| 3.4 | Ymroddiad i gyrraedd safonau proffesiynol | H | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| 3.5 | Gwybodaeth o dechnoleg a sut y gall gefnogi dysgu | D | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| 3.6 | Gallu i flaenoriaethu, cynllunio a threfnu'n effeithlon, yn cynnwys trefniadaeth bersonol | H | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| 3.7 | Hyblygrwydd, creadigrwydd a phositifrwydd | H | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| 3.8 | Gallu i roi cefnogaeth effeithlon i bob myfyriwr y dynodwyd fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol | H | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| 3.9 | Ymroddiad i roi cefnogaeth i fyfyrwyr gydag anghenion gofal personol a chefnogi gyda gwisgo a dadwisgo (e.e. ar gyfer | H | Ffurflen Gais/Cyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | addysg gorfforol) | | |
| **Diogelu** | | | |
| 5.1 | Ymroddiad i les disgyblion a diogelu ac amddiffyn plant | H | Cyfweliad |
| 5.2 | Tystlythyrau cadarnhaol | H | Yn dilyn llunio'r rhestr fer |
| 5.3 | DBS estynedig | H | Yn dilyn cyfweliad |

--------------

## Gwybodaeth am y Gyfadran - Canolfan Adnoddau Arbennig

Mae gan Ysgol Gyfun Trefynwy Ganolfan Adnoddau Arbenigol gynhwysol a oruchwylir gan Awdurdod Lleol Sir Fynwy. Mae myfyrwyr yn y Ganolfan yn rhan o gymuned Ysgol Gyfun Trefynwy ac yn profi addysg wrth ochr eu cyfoedion. Mae’r Ganolfan yn darparu cymorth arbenigol ar gyfer myfyrwyr y dynodwyd fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, gan alluogi myfyrwyr i gael mynediad i elfennau o’r brif ffrwd lle’n briodol, ynghyd ag addysgu arbenigol, dysgu a chyflwyno llesiant. Caiff darpariaeth ei datblygu drwy ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn dynodi rhwystrau i ddysgu a dulliau i’w goresgyn. Mae staff yn y Ganolfan yn cydweithio’n agos gyda Thîm ADY yr awdurdod lleol, y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, gweithwyr proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Rhwydwaith Sir Fynwy o Ganolfannau Adnoddau Arbenigol.

Mae gan y Ganolfan nifer derbyn o 55, gydag ystod oedran o 11 i 19 oed. Mae’r Ganolfan yn dynodi anghenion cymhleth mewn un neu fwy o’r meysydd dilynol:


- Anawsterau dysgu difrifol;
- Anhwylder yn y sbectrwm awtistig;
- Heriau lleferydd, iaith a chyfathrebu;
- Heriau corfforol a meddygol

Caiff derbyn i’r Ganolfan ei benderfynu gan dîm o weithwyr proffesiynol a chytunir arno gan Banel ADY yr Awdurdod Lleol. Ym mron bob achos, bydd myfyrwyr yn derbyn Datganiad AAA/Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal / Cynllun Datblygu Unigol a bydd angen darpariaeth dysgu ychwanegol penodol er mwyn sicrhau lle yn y Ganolfan.

Mr Michael Hobbs yw Arweinydd y Ganolfan. Mae saith arall o athrawon arbenigol, dau Gynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch a thîm o gynorthwywyr addysgu sy’n gweithio ar draws y Ganolfan. Mae gan bob aelod o’r tîm set sgiliau arbenigol a datblygiad parhaus er mwyn ateb anghenion y myfyrwyr o fewn y Ganolfan. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mewn meysydd fel ELKLAN, Step Back, Attention Autism, Word Aware, Makaton, Numicon a Precision Teaching.

Cynlluniwyd ein hysgol i alluogi’r Ganolfan i fod wrth ei chanol. Mae gennym gyfres o bump ystafell ddosbarth o fewn y Ganolfan, ynghyd ag ystafelloedd grwpiau bach, ystafell synhwyraidd, gardd synhwyraidd ac ystafell hylendid gydag offer llawn. Mae ystafelloedd dosbarth bach yn ein hardaloedd Cyfadran Craidd ac ystafelloedd grwpiau llai sy’n hygyrch drwy’r adeilad. Mae hyn yn cefnogi ein ethos cynhwysol. Mae myfyrwyr o fewn y Ganolfan yn cael mynediad i’r holl gyfleusterau allweddol yn yr ysgol, er enghraifft Arlwyo, Dylunio a Thechnoleg, Addysg Gorfforol a’r gofodau awyr agored.





--------------

## Gwybodaeth am y Gyfadran - Canolfan Adnoddau Arbennig

Mae myfyrwyr yn y Ganolfan yn cael yr un cyfleoedd â myfyrwyr yn y brif ffrwd, gydag addasiadau fel sydd angen. Caiff amserlenni eu datblygu o amgylch anghenion unigol drwy ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda chefnogaeth bwrpasol yn y meysydd a ddynodwyd, er enghraifft mewnbwn therapi lleferydd ac iaith, addysgu manwl. Caiff myfyrwyr sy'n defnyddio'r Ganolfan eu cefnogi, fel sydd angen, drwy gydol y dydd, o pan gyrhaeddant yr ysgol yn y bore, drwy amserau egwyl a cinio nes byddant yn gadael ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Rhoddir ffocws ar ddatblygu sgiliau swyddogaethol, annibyniaeth a chydnerthedd yn unol â chynnydd myfyrwyr unigol. Mae mynediad i amgylchedd yr ysgol yn ehangach a'r gymuned leol yn cefnogi datblygiad pellach ar sgiliau hanfodol i gefnogi ein myfyrwyr wrth iddynt symud ymlaen i fywyd fel oedolion. Caiff cynnydd ei olrhain mewn amrywiaeth o ffyrdd i sicrhau llwyddiant ar gyfer pob myfyriwr unigol. Bydd gan bob myfyriwr dargedau a gaiff ei holrhain, eu monitro a'u hadolygu'n barhaus.

Caiff rhaglenni dysgu eu hadolygu o leiaf yn flynyddol. Maent yn rhoi ystyriaeth i gam datblygu ac uchelgais myfyrwyr. Mae ystod o lwybrau cymhwyster yn cefnogi datblygiad sgiliau personol a chymdeithasol, yn ogystal â rhai swyddogaethol ac academaidd, yn cael eu hystyried ar Gyfnod Allweddol 4 a 5. Caiff cynnwys y cymwysterau, yn ogystal â'r llwybrau asesu, eu hadolygu i sicrhau datblygu sgiliau, llwyddiant a'n bod yn rhoi pob cyfle i sicrhau'r llwybr nesaf. Er mwyn sicrhau llwybr holistig, caiff lleoliadau gwaith a phrofiadau pellach eu hymchwilio yng Nghyfnod Allweddol 5.



## Y Broses Recriwtio

### 1. Gwneud Cais

Gall ymgeiswyr mewnol wneud cais drwy anfon llythyr, dim mwy na 2 ochr, yn amlinellu pam eu bod yn addas ar gyfer y swydd. Caiff y llythyr cais, ynghyd â'r cyfweliad, ei ddefnyddio i benderfynu os gellir penodi ymgeisydd ar gyfer y swydd.

Dylid dychwelyd ffurflenni cais a lenwir ar bapur at: Mrs Laura Claypole, Ysgol Gyfun Trefynwy, Hen Heol Dixton, Trefynwy NP25 3YT.

Gellir anfon ceisiadau drwy e-bost at: mon.recruitment@monmouth.schoolsedu.org.uk

**Dyddiad Cau:** **Dydd Sul 2 Tachwedd am 23.00**

### 2. Proses Gyfweld

**Dyddiad Cyfweliadau:** **Wythnos yn dechrau 3 Tachwedd**

### 3. Gwybodaeth Ychwanegol

Cysylltwch â: Mrs Laura Claypole mon.recruitment@monmouth.schoolsedu.org.uk i gael unrhyw wybodaeth bellach.

### 4. Diogelu

Cafodd penodiad i'r swydd hon ei eithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr ac mae'n amodol ar Wiriad Datgelu Estynedig. Rhaid i ymgeiswyr fod yn gwybod am a chydymffurfio gyda pholisïau a gweithdrefnau'n ymwneud ag amddiffyn a diogelu plant, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd a diogelu data, gan hysbysu person priodol am bob mater o gonsyrn.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob adran o'r gymuned. Croesewir ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg a chânt eu trin yn gyfartal.

